



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Waunfawr  
Waunfawr  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 4LJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/06/2016

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Waunfawr yng nghanol pentref gwledig Waunfawr ger Caernarfon yng Ngwynedd. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardaloedd gwledig o amgylch.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol, yn rhan amser, yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae 121 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol, ynghyd â 25 o oed meithrin rhan amser. Maent wedi'u trefnu'n bum dosbarth gyda phedwar ohonynt yn ddosbarthiadau oed cymysg.

Cymraeg yw prif iaith y cartref i oddeutu 73% o'r disgyblion. Mae 19% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r canran hwn wedi gostwng yn ddiweddar. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2001 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Waunfawr yn 2015-2016 yw £3,533. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £12,116 a'r lleiafswm yw £2,981. Mae Ysgol Waunfawr yn safle 81 o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig i safon dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwysu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- safonau cyflawniad rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau yn dda
- presenoldeb uchel y disgyblion yn nodweddiadol iawn
- gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu
- staff yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli weledigaeth glir o ran ei datblygu
- aelodau'r corff llywodraethol yn ei dwyn i gyfrif yn dda
- arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- ganddi amryw o weithdrefnau monitro pwrpasol yn eu lle
- y cynllun datblygu yn cynnwys blaenoriaethau priodol
- arweinwyr yn rheoli ei hadnoddau yn dda
- rôl ganolog iddi yn y gymuned
- cydweithio da yn bodoli rhyngddi â phartneriaid er mwyn hybu lles ac addysg y disgyblion

## Argymhellion

- A1 Datblygu rôl y cyngor ysgol i alluogi aelodau i gyfrannu'n fwy gweithredol i fywyd yr ysgol
- A2 Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i sylwadau ysgrifenedig yr athrawon
- A3 Pennu targedau mwy penodol a meintiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- A4 Sicrhau bod gweithdrefnau monitro yn rhoi ffocws clir ar effaith cynlluniau gwella ar y ddarpariaeth a safonau cyflawniad disgyblion

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae medrau'r disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol yn amrywio'n fawr. Mae gwaith y disgyblion yn eu llyfrau ac yn y gwersi yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda. Maent yn galw i gof dysgu blaenorol, ac yn defnyddio'u gwybodaeth yn bwrpasol yn eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn siarad yn hyderus ac yn mynegi eu hunain yn glir gydag ystod gynyddol o eirfa. Mae ychydig o'r disgyblion yn darparu ymatebion estynedig i safon dda iawn gan gynnig esboniadau am eu safbwyntiau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn dangos gafael sicr ar eirfa bynciol a chyffredinol wrth drafod eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer yn sgwrsio am eu hoff gymeriadau gyda dealltwriaeth gynyddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau ac oddi ar wefannau. Mae ychydig o ddisgyblion ym mhen uchaf yr ysgol yn llwyddo i gyflwyno sgrïpt nad ydynt wedi ei gweld o'r blaen yn hyderus.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gyda chywirdeb da. Mae ychydig o'r disgyblion hŷn yn dechrau ysgrifennu'n estynedig i ystod o bwrpasau. Mae hyn yn cynnwys llunio holiadur i Nain a Thaid i olrhain gwybodaeth am yr adeg pan oeddent yn ifanc, ysgrifennu cyfarwyddiadau clir i ddod o hyd i drysor a chreu llyfryn gwybodaeth am briodweddau deunyddiau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig a chywir mewn gwahanol gyd-destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys cynhyrchu posteri propaganda, adroddiadau hanesyddol am yr Ail Ryfel Byd, cofnodion ymholiadau gwyddonol, a sgrïpt a fyddai'n perthyn i gyfnod y Chwedegau. Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn eu defnyddio'n hyderus yn eu gweithgareddau. Maent yn cymhwyso eu medrau mesur yn effeithiol mewn gweithgareddau ymchwilio ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn cyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau ac yn dadansoddi eu canlyniadau yn effeithiol. Maent yn cwblhau gweithgareddau rhesymu yn ddeallus, er enghraifft cyfrifo i ddarganfod a oes ganddynt ddigon o arian i brynu gwahanol gyfuniadau o nwyddau a chyfrifo'r newid.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael gadarn ar ystod eang o fedrau rhifedd. Maent yn cymhwyso eu medrau yn hyderus mewn tasgau, er enghraifft mesur hyd cysgodion a chyflwyno'r canlyniadau ar ffurf graff. Maent yn datrys posau yn ymwneud â siapiau a thrin data gyda chywirdeb da. Maent yn casglu gwybodaeth mewn amrywiol ffyrdd ac yn cyflwyno data a'u casgliadau ar ffurf graffiau mewn gwahanol bynciau. Gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol o'u medrau datrys problemau mewn cyd-destunau bob dydd, er enghraifft trwy gyfrifo amser teithio a phellter rhwng un lleoliad â'r llall.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datrys problemau yn annibynnol. Maent, er enghraifft, yn ailadeiladu capel sydd wedi dymchwel o fewn yr ardal adeiladu a chreu cwt anifeiliaid trwy ddefnyddio gwahanol gyfuniadau o flociau. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o ddefnydd o'u medrau dysgu annibynnol yn eu gweithgareddau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Gyda chefnogaeth, maent yn llwyddo i gyflwyno darnau o waith estynedig mewn gwahanol feysydd.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwylidig o gymharu ag ysgolion tebyg ymhlith y 50% isaf neu'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol ac iaith dros bedair blynedd. Mae'r canran sy'n cyflawni'r deilliannau uwch, er yn anwastad, ymhlith yr 50% uwch a'r 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol ac iaith mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros bedair blynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwylidig o gymharu ag ysgolion tebyg ymhlith y 25% isaf mewn mathemateg, ac yn aml mewn Saesneg a gwyddoniaeth. Mae'r canlyniadau yn y Gymraeg yn amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn anwastad ac yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Mae safon gwaith y disgyblion yn eu llyfrau ac mewn dosbarthiadau yn well nag y mae'r data'n ei awgrymu ar y lefelau disgwylidig a'r lefelau uwch.

Dros gyfnod o bedair blynedd, yn gyffredinol, mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn ond nid yw hyn yn amlygu ei hun o fewn gwersi. Nid oes patrwm cyson o wahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion.

### **Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae gan y rhan fwyaf agweddau cadarnhaol tuag at gadw'n iach ac maent yn deall beth yw nodweddion bwyta'n iach a phwysigrwydd ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda yn ystod gwersi ac amser chwarae ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn camymddwyn ar adegau ac yn derbyn cymorth gan yr ysgol i wella eu hymddygiad. Mae'r disgyblion hyn yn ymgymryd â rolau 'Ffrindiau Ffeind' yn ystod amser chwarae yn effeithiol, sy'n golygu bod ymdeimlad cryf o ofal a chyfeillgarwch ymhlith y rhan fwyaf ohonynt.

Mae presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf ymhlith y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae hon yn nodwedd gref. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu dysgu ac yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau. Mae cyfrannu at weithgareddau yn y gymuned, fel gwasanaethau diolchgarwch, cyngherddau ac eisteddfodau, yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn effeithiol.

Mae'r disgyblion yn barod i gyfrannu at fywyd a gwaith cyffredinol yr ysgol trwy gymryd gwahanol gyfrifoldebau. Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n egniol at gynllunio gweithgareddau llwyddiannus, er enghraifft Wythnos Cymru Cŵl a gweithgareddau i godi arian tuag at nifer o elusennau. Fodd bynnag, nid yw rôl y cyngor wedi'i datblygu'n llawn o ran dylanwadu ar bolisïau a bywyd dyddiol yr ysgol.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau diddorol sy'n bodloni diddordeb ac anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

Mae'r athrawon yn ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol yn eu cynllunio trwy weithgareddau bwriadus sy'n datblygu medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn sicrhau bod cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddefnyddio'r hyn maent eisoes wedi'i ddysgu mewn sefyllfaoedd ymarferol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio medrau rhif yn hyderus yn y gwersi gwyddoniaeth wrth gasglu a dehongli data tymheredd.

Mae'r athrawon yn darparu rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus ar gyfer datblygu medrau grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn amlygu ei hun yn effeithiol ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae cyfleoedd i gyfoethogi'r ddarpariaeth drwy ymweliadau gan awduron ac enwogion Cymreig ac ymweliadau i leoliadau hanesyddol fel cartref T H Parry Williams yn Rhyd Ddu.

Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fynychu cyrsiau preswyl. Mae hynny yn cyfoethogi eu profiadau ac yn magu medrau cymdeithasol da trwy eu galluogi i gydweithio fel tîm ar wahanol weithgareddau antur.

Mae gweithgareddau elusenol rhyngwladol ac astudiaethau yn ymwneud â Masnach Deg o fewn y cwricwlwm yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o faterion cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol sicr ac mae'r rhan fwyaf yn darparu cyfleoedd effeithiol ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol.



Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y disgwylir i'r disgyblion ei gyflawni. Maent yn rhannu nodau dysgu clir gyda'r disgyblion, ac yn holi cwestiynau pwrpasol sy'n eu hannog i feddwl a gwella eu dealltwriaeth o'r gwaith. Maent yn gosod tasgau diddorol iddynt ac yn defnyddio adnoddau yn effeithiol i sicrhau eu hymrwymiad gweithredol i'w dysgu. Yn y dosbarthiadau hyn, mae'r athrawon yn cynllunio a threfnu gweithgareddau'n effeithiol er mwyn bodloni anghenion dysgu disgyblion o bob gallu.

Mewn ychydig o ddisbarthiadau, fodd bynnag, mae cyflymder anwastad yn amharu ar effeithiolrwydd y gwersi ac nid yw tasgau bob amser yn cynnig her briodol i'r holl ddisgyblion. Ar adegau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn tueddu i gyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion feithrin a defnyddio eu medrau'n annibynnol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i alluogi athrawon i asesu, cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd addas o'r wybodaeth hon i gynllunio gweithgareddau dysgu a darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn unol â'r galw. Mae hyn yn cyfrannu'n adeiladol at gynnydd a chyflawniad da y disgyblion. Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd a cheir nifer o enghreifftiau da lle mae athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gynhyrchiol. Fodd bynnag, ychydig o gyfleoedd sydd i'r disgyblion ymateb i sylwadau ysgrifenedig yr athrawon a mynd i'r afael â'r agweddau hynny sydd angen sylw.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chanddi drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles ei disgyblion. Ceir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol ac mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, rhaglenni preswyl a chysylltiadau gydag ystod o asiantaethau yn cyfrannu'n gynhyrchiol at hyn. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu teithiau cerdded a chysiau medrau awyr agored gydag Antur Waunfawr i hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o'r amgylchedd ffisegol a threftadaeth eu cynefin.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw buddiol i anghenion personol ac emosiynol y disgyblion ac mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol. Mae'r cymorth hwn yn cynorthwyo'r ysgol yn effeithiol gyda'r gweithdrefnau i annog ymddygiad da ymhlith yr holl ddisgyblion. Mae'r cynlluniau ar gyfer hyrwyddo presenoldeb cyson ymhlith disgyblion yn hynod lwyddiannus. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn adnabod anghenion dysgu'r disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth bwrpasol iddynt o fewn y dosbarth, mewn grwpiau ymyrraeth, ac ar lefel unigol gan gymorthyddion ymroddedig. Er bod cynlluniau addysg unigol y disgyblion yn cynnwys targedau a gwybodaeth briodol i hybu cynnydd, nid yw'r targedau bob amser yn ddigon penodol a meintiol i ymestyn dysgu'r disgyblion yn gyson.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a Chymreig sy'n annog parch tuag at blant ac oedolion fel ei gilydd. Mae polisiâu a gweithdrefnau perthnasol yn sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r ddarpariaeth i bob disgybl.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r adeilad a safle'r ysgol. Er bod yr adeilad yn hen, mae rhaglen o welliannau wedi gwella'r cyfleusterau i'r staff a'r disgyblion. Gwneir defnydd creadigol o neuadd fach yr ysgol fel ffreutur cinio ac ar gyfer gweithgareddau dysgu ac addoli ar y cyd. Mae arddangosfeydd yn cyfrannu'n dda at greu amgylchedd deniadol ar draws yr ysgol ond ychydig enghreifftiau sydd o arddangosfeydd o waith y disgyblion.

Mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau cyfredol ar gyfer gwersi a datblygu medrau digidol y dysgwyr. Mae adeilad a safle'r ysgol yn darparu amgylchedd priodol a diogel i ddisgyblion. Mae caeau'r ysgol, yr ardd ac ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau dysgu, i gadw'n iach ac i ddysgu mwy am amgylchedd naturiol eu cynefin.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

## Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth a'r uwch dim rheoli weledigaeth glir a nodau pendant ar gyfer datblygu'r ysgol. Maent wedi eu seilio'n gadarn ar sicrhau a dathlu cyflawniad disgyblion, a'u datblygu fel unigolion cyflawn. Mae'r arweinwyr yn llwyddo i rannu'r weledigaeth yn effeithiol gyda'r disgyblion, staff, rhieni a'r llywodraethwyr. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, mae gweithdrefnau pwrpasol ar waith i sicrhau bod cynllunio strategol yr ysgol yn rhoi ffocws clir ar godi safonau ac yn ymateb i'w blaenoriaethau gwelliant.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn sicrhau bod athrawon yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'u swydd ddisgrifiadau a blaenoriaethau'r cynllun datblygu.

Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n glir ar agenda gwella'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rôl wrth ymateb i'r blaenoriaethau gwella a'r camau gweithredu.

Mae'r staff yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, maent yn cynllunio'n bwrpasol i ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a Siarter Iaith Gymraeg yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cyfrannu at wella cyflawniad disgyblion, yn arbennig eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymroi i ddatblygiad yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gydwybodol. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am ddata perfformiad a chryfderau'r ysgol, a'r meysydd i'w datblygu. Mae eu hymweliadau cyson â'r ysgol yn eu galluogi i adnabod cynnydd ac maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn dda.

## **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu effeithiol sy'n sicrhau bod arweinwyr a staff yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r gweithdrefnau yn seiliedig ar amserlen fonitro gynhwysfawr dros gyfnod penodol ac yn cynnwys craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi, trafod gyda'r disgyblion a chywain barn rhieni, llywodraethwyr a phartneriaid eraill. Mae'r trefniadau yn galluogi staff, arweinwyr a llywodraethwyr i lunio adroddiadau pwrpasol ar eu canfyddiadau wrth iddynt arfarnu meysydd arbennig. Mae'r rhain yn cael eu trafod yn drylwyr mewn cyfarfodydd staff a chyfarfodydd llywodraethwyr.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, er yn helaeth, yn seiliedig ar ddeilliannau'r gweithgareddau monitro ac yn rhoi darlun cytbwys o gyraeddiadau a chyflawniadau'r disgyblion, ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth. Mae'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddata cyrhaeddiad y disgyblion, arsylwadau gwersi ac ymatebion i holiaduron. Ceir cyswllt agos rhwng y materion sydd wedi eu hadnabod fel meysydd i'w gwella a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy'n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun blaenorol. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys cynnal a gwella safonau yn y dosbarthiadau a rhannu arferion da ar gyfer datblygu agweddau o lythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol. Er bod arweinwyr yn cynllunio camau gwelliant yn adeiladol, nid ydynt bob amser yn gosod ffocws digon clir ar eu heffaith ar y ddarpariaeth a safonau cyflawniad disgyblion.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid sy'n ehangu profiadau'r disgyblion ac yn cyfrannu'n effeithiol at eu lles a'u datblygiad.

Mae perthynas gadarnhaol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhan fwyaf yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac yn ymateb yn adeiladol i weithgareddau i godi arian i brynu adnoddau fel cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a llyfrau darllen. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at wella ansawdd yr adnoddau a safonau disgyblion.

Mae partneriaeth gynhyrchiol yn bodoli rhwng yr ysgol â'r gymuned leol. Mae ymweliadau â busnesau lleol ynghyd â chyfraniadau trigolion lleol yn ymestyn profiadau'r disgyblion yn dda. Mae cydweithio ymarferol gydag Antur Fachwen yn datblygu adnabyddiaeth y disgyblion o'u hardal leol yn ogystal ag ehangu eu dealltwriaeth o gadwraeth a'r amgylchedd.

Trwy bartneriaeth fuddiol gyda grŵp o artistiaid ac ysgolion cyfagos, mae'r disgyblion yn ymestyn eu medrau creadigol yn effeithiol ac yn arddangos eu gwaith gorffenedig yn gyhoeddus.

Mae'r defnydd adeiladol o wasanaethau'r awdurdod lleol, ynghyd â'r ymweliadau ag ysgolion lleol, yn hyrwyddo strategaethau dysgu ac addysgu cyfoes sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella safonau yn y dosbarth.

Mae'r cydweithio llwyddiannus sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd ac mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag ysgolion cyfagos i drefnu ymweliadau preswyl i ganolfannau fel gweryll yr Urdd.

Mae athrawon yn cydweithio'n agos ag ysgolion y clwstr a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddilysu cywirdeb eu hasesiadau.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r staff yn rheoli eu hadnoddau yn dda ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at amrediad eang o gyfarpar addas.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles y disgyblion, er enghraifft drwy gynnal sesiynau ymyrraeth i gryfhau medrau llythrennedd y disgyblion.

Mae'r drefn ar gyfer rheoli perfformiad yn cynorthwyo staff i adnabod eu hanghenion proffesiynol pellach yn ogystal â bodloni anghenion gwelliant yr ysgol. Mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar yr addysgu a'r dysgu. Mae'r staff yn gwneud defnydd pwrpasol o'u cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu i ddarparu'n briodol ar gyfer anghenion dysgu eang y disgyblion ar draws y dosbarthiadau.

Mae'r staff yn cyfrannu'n effeithiol at rwydweithiau o ysgolion cynradd lleol i ddatblygu cynlluniau i godi safonau darllen. Mae'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yn ofalus wrth osod a monitro'r gyllideb, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n briodol ar ymateb i flaenoriaethau'r cynllun datblygu. Gwnânt ddefnydd effeithlon o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i godi safonau llythrennedd a rhifedd a datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r grŵp hwn.

O ystyried safonau cyflawniad a lles y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6612113 - Ysgol Waunfawr

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	131
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	19.9
Grŵp PYD	3 (16%<PYD<=24%)

#### Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>	21	15	20	18
<b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>	71.4	60.0	85.0	72.2
Chwarter meincnod	4	4	3	4
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	21	15	20	18
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	81.0	60.0	85.0	77.8
Chwarter meincnod	3	4	3	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	47.6	26.7	35.0	38.9
Chwarter meincnod	1	3	2	2
<b>Datblygiad mathemategol (MDT)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	21	15	20	18
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	76.2	66.7	90.0	77.8
Chwarter meincnod	4	4	3	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	33.3	26.7	25.0	33.3
Chwarter meincnod	1	2	3	2
<b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	21	15	20	18
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	90.5	86.7	100.0	100.0
Chwarter meincnod	3	4	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	57.1	46.7	90.0	66.7
Chwarter meincnod	1	2	1	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

## 6612113 - Ysgol Waunfawr

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

131

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

19.9

Grŵp PYD

3 (16%<PYD<=24%)

### Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6</b>	19	17	10	13
<b>Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)</b>	73.7	82.4	70.0	69.2
Chwarter meincnod	4	3	4	4
<b>Saesneg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	17	10	13
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	78.9	88.2	80.0	69.2
Chwarter meincnod	4	3	4	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	38.5
Chwarter meincnod	*	*	*	3
<b>Cymraeg iaith gyntaf</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	17	10	13
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	78.9	88.2	70.0	69.2
Chwarter meincnod	3	2	4	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	31.6	*	*	38.5
Chwarter meincnod	1	*	*	2
<b>Mathemateg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	17	10	13
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	73.7	82.4	70.0	69.2
Chwarter meincnod	4	4	4	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	38.5
Chwarter meincnod	*	*	*	3
<b>Gwyddoniaeth</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	17	10	13
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	78.9	88.2	80.0	69.2
Chwarter meincnod	4	3	4	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	53.8
Chwarter meincnod	*	*	*	1

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	73	73 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	72	71 99%	1 1%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	73	72 99%	1 1%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	72	72 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	72	72 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	69	66 96%	3 4%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	72	72 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	73	73 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	72	69 96%	3 4%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	73	72 99%	1 1%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	72	63 88%	9 12%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	73	69 95%	4 5%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	60	39 65%	16 27%	4 7%	1 2%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	61	46 75%	11 18%	4 7%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	60	41 68%	18 30%	1 2%	0 0%	1	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	61	36 59%	18 30%	5 8%	2 3%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	58	30 52%	20 34%	5 9%	3 5%	3	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	61	43 70%	13 21%	4 7%	1 2%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		62%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	61	41 67%	17 28%	2 3%	1 2%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	60	35 58%	18 30%	6 10%	1 2%	1	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		50%	42%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	60	35 58%	18 30%	3 5%	4 7%	1	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	60	38 63%	21 35%	1 2%	0 0%	1	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	61	42 69%	15 25%	3 5%	1 2%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		67%	31%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	58	33 57%	21 36%	4 7%	0 0%	2	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	61	33 54%	22 36%	4 7%	2 3%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		50%	41%	8%	2%		



	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	61	42 69%	11 18%	6 10%	2 3%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	60	32 53%	19 32%	6 10%	3 5%	1	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		49%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	59	31 53%	24 41%	3 5%	1 2%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	46	28 61%	11 24%	5 11%	2 4%	8	Mae fy mhentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		53%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	61	39 64%	16 26%	5 8%	1 2%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		55%	39%	6%	1%		
The school is well run.	60	36 60%	17 28%	4 7%	3 5%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Emma Rofe	Arolygydd Cofnodol
Glyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
Gwyn Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Gwenan Williams	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.